# DIOGELWCH y Nadolig

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD

## GYDA TYMOR Y NADOLIG YN AGOSÁU RYDYM YN SYLWEDDOLI Y BYDD NIFER OHONOCH YN GOSOD ADDURNIADAU Y TU ALLAN I'CH CARTREF.

Mae sicrhau eich diogelwch yn bwysig iawn i ni ac os ydych yn penderfynu gosod eitemau y tu allan i'ch eiddo, **BYDD ANGEN ICHI GAEL EIN CANIATÂD CYN GWNEUD Y GWAITH.**

Gall drilio neu osod eitemau ar waliau allanol, ffasgau neu fondoeau achosi nifer o broblemau fel tamprwydd a chyddwysiad. Mae'n bosib hefyd y gellid aflonyddu asbestos a allai fod yn niweidiol i'ch iechyd.

Os ydym o'r farn bod eiddo yn beryglus oherwydd addurniadau, byddwn yn archwilio, ac efallai byddai angen i chi eu tynnu.

Os ydi'r addurniadau yn ddiogel, ond eu bod wedi achosi difrod i'ch cartref, gellid codi tâl arnoch am y difrod.

**Dylech gymryd sylw o'r cyngor isod cyn gosod eich addurniadau:**

1. **Peidiwch â gorlwytho socedi** – dylid osgoi gorddefnydd o socedi estyn ac addaswyr. Ni ddylid plygio sawl estyniad i'w gilydd.
2. **Peidiwch ag ail-weirio eich goleuadau** – mae'n demtasiwn i ailweirio 2, 3 neu cyfres o 4 golau mewn un plwg. Peidiwch â gwneud hynny ar unrhyw gyfrif oherwydd mae'n hynod beryglus a gallai achosi tân.
3. **Gwnewch yn siŵr bod eich goleuadau tu allan wedi'u hardystio a'u bod yn ddiogel at ddefnydd allanol** – dim ond goleuadau sydd wedi'u cynllunio yn arbennig ar gyfer defnydd tu allan y dylid eu defnyddio. Cyfeiriwch at gyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr os ydych yn ansicr.
4. **Peidiwch â gadael y goleuadau ymlaen am gyfnodau hir** – mae'n demtasiwn i adael y goleuadau ymlaen dros nos neu pan ydych i ffwrdd. Mae goleuadau Nadolig i gyd yn cynyddu'r risg o dân a dim ond pan fyddwch adref y dylid eu rhoi ymlaen.
5. **Defnyddiwch oleuadau Nadolig ardystiedig** – chwiliwch am y Symbol Safon Ewropeaidd (gyda nod y CE) a Nod Barcud Safon Brydeinig i sicrhau eu bod wedi eu gwneud gan gwmni sydd ag enw da a phrynwch o siopau sydd ag enw da. Os oes unrhyw amheuaeth, peidiwch â'u defnyddio.

Os ydych yn ansicr neu os hoffech arweiniad pellach cyn gosod eich addurniadau, mae croeso i chi gysylltu â ni ar **0300 123 8084**.

Am ragor o gyngor ar ddiogelwch gweler ein taflenni gwybodaeth ar ein gwefan: **www.ccgwynedd.org.uk**

# SAFETY AT *Christmas*

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD

## WITH THE FESTIVE SEASON AROUND THE CORNER WE RECOGNISE THAT SOME OF YOU WILL BE INSTALLING OUTDOOR DECORATIONS.

Your safety is paramount to us so if you decide to fix items to the outside of your property, **YOU'LL NEED OUR PERMISSION BEFORE CARRYING OUT THE WORK.**

Drilling or fixing into external walls, facias or soffits can cause a variety of issues such as dampness and condensation. There is also a possibility of disturbing asbestos which can be very harmful to your health.

If we believe a property is a safety risk due to decorations, we will inspect, and you might be asked to take them down.

If the decorations are safe, but damage is caused to your home, you could be charged for the damage.

**Please consider these safety tips before installing your decorations:**

1. **Don't overload sockets** – avoid extensive use of extension sockets and adapters. Do not plug multiple extensions into each other.
2. **Don't re-wire your lights** – it's tempting to rewire 2, 3 or sometimes 4 sets of lights into a single plug. Please do not as this is very dangerous and a potential fire risk.
3. **Ensure your outside lights are certified safe for external use** – only use lights outdoors that are specifically designed to be used outdoors. If you are unsure check the manufacturers' instructions.
4. **Don't leave lights on for long periods** – it's tempting to leave lights overnight or leave them on when you are away from home. All Christmas lights increase the risk of fire and overloading and should only be switched on whilst you are at home.
5. **Always use certified Christmas lights** – look out for the European Standards Symbol (represented by a CE) and the British Standards Kitemark to check if they are reputable and buy from reputable stores. If in doubt, don't use them.

If you are unsure or would like some guidance before installing your festive decorations, please contact us on **0300 123 8084**.

For more safety advice and tips see the factsheets on our website: **www.ccgwynedd.org.uk**